
# Cofiwch Dryweryn- Remember Tryweryn

## Llyn Celyn

Wedi'i adeiladu rhwng 1960 a 1965 yng nghwm Tryweryn, cafodd cronfa reoleiddio Llyn Celyn ei hadeiladu fel rhan o Gynllun Llyn Tegid yn nhalgylch afon Dyfrdwy er mwyn darparu cyflenwad cyson o ddŵr i Ddinas Lerpwl. Cafodd ardal rhyw 320ha ei golli o dan 81 miliwn metr ciwbig o ddŵr a chafodd pentref Capel Celyn a deuddeg o ffermydd eu boddi gan y gronfa, gan achosi llawer iawn o ddadlau ar y pryd, gyda'r drwgdeimlad yn parhau hyd heddiw. Yn anarferol ar gyfer cronfa a fwriadwyd ar gyfer cyflenwad dŵr, y mae hefyd yn cynhyrchu 4MW o drydan ar gyfer y grid cenedlaethol.














- Cafodd boddi Tryweryn ei wrthwynebu gan 125 o awdurdodau lleol a phleidleisiodd 27/36 o ASau Cymru yn erbyn yn mesur gyda 0 yn pleidleisio o blaid.
- Creodd y pentrefwyr Bwyllgor Amddiffyn Capel Celyn, fu'n trafod ac yn difenwi'r cynllun ar hyd a lled Cymru drwy bapurau newydd, radio a theledu.
- Gorymdeithiodd y pentrefwyr ddwywaith i Lerpwl yn 1956 er mwyn lleisio eu gwrthwynebiad. Fodd bynnag, pleidleisiodd cynghorwyr Lerpwl drwy'r trwch i fwrw ymlaen efo pethau.
- Roedd y pentref yn un o'r cymunedau uniaith Gymraeg olaf yn yr ardal.
- Ar 19 Hydref 2005, cyhoeddodd Cyngor Sir Lerpwl ymddiheuriad swyddogol am foddi'r cwm. Croesawyd y symudiad yma gan rai, gydag eraill yn dweud bod yr ymddiheuriad yn "arwydd gwleidyddol diwerth" a'i fod wedi dod yn llawer rhy hwyr.
- Mae'r llythrennau gwyn ar y cefndir gwaetgoch, coch y ddraig, coch Cymru, yn symbol o arwydd o herfeiddiad; parodrwydd i wneud safiad.
- Un o symbolau mwyaf o falchder Cymru, ein synnwyr o fod yn herfeiddiol, a'n penderfyniad i warchod ein hiaith.



'map yn dangos llefydd sydd gan neges "Cofiwch Dryweryn" '

| | |
|---|---|
| **Wales Curriculum** Fit<br>Primary | Humanities: Understanding that **values, attitudes and identity are shaped** by different groups and influences.<br>Also **Curiosity about the World** – Primary<br>1.1 – Similarities & Differences between people's lives past & present;<br>1.2 – How communities and societies have changed over time, in Wales and wider world |
| Secondary<br><br>Learning Descriptor 3.4.1<br>Learning Descriptor 3.4.4 | Humanities: Analysing importance of relationships, links & connections between societies, and drawing meaningful **comparisons and contrasts** between them. Also Secondary 1.3 – **Similarities, differences** & inequalities between diverse societies past & present; Secondary 1.4 – How communities & societies have adapted / changed in Wales & wider world, + possible futures. |
| **Lesotho Curriculum** Fit<br>Primary | Social Sciences – **Similarities and Differences** between Welsh and Basotho society (Grade 6) |
| Secondary | History - Education - **Values & Attitudes** of Basotho and Welsh people (Grade 7) |

# Argaeau yng Nghymru a

## Argae Polihali

Mae Argae Polihali yn argae gyda wyneb concrid iddo wedi'i gloddio o graig sy'n cael ei adeiladu yn Mokholtlong, Lesotho. Dyma'r trydydd allan o bum argae sydd yn dod dan Gam II y gyfres o argaeau sy'n cael eu cynnig gan Brosiect Dŵr Ucheldir Lesostho (LHWP). Mae'r twnnel trosglwyddo Polihali fydd yn cysylltu'r argae hon gydag argae Katse yn ymestyn 38km o hyd. Bydd y twnnel yn cludo dŵr drwy rym disgyrchiant o gronfa Polihali i gronfa Katse. Bydd adeiladu Argae Polihali a llenwi'r gronfa rhoi capasiti storio o 2.3 billion $m^3$ ac yn cwmpasu mwy na 5000 hectar o dir yn ffinio gydag afon Senqu ac afon Kubele. Anelir i'w gwblhau yn 2028.



### Termau allweddol

- **Hiliaeth Amgylchedd** - yw traweffaith anghymesur peryglon amgylcheddol, llygredd, a diraddiad ecolegol ar gymunedau sydd wedi'u hymleiddio
- **Cyfiawnder Hinsawdd** - yn canolbwyntio ar draweffeithiau anghyfartal newid hinsawdd ar boblogaethau sy'n agored i niwed. Mae'n ceisio cyflawni dosbarthiad teg o faich newid hinsawdd ac ymdrechion i liniaru hynny drwy newid polisi.
- **Actifiaeth** - defnyddio ymgyrchu grymus i roi newid cymdeithasol ar waith
- **Adduned Hinsawdd** - ymrwymiad i gyrraedd sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2040. Galwad i gymryd camau i weithredu ar y cyd ar argyfwng hinsawdd y byd a gweithio gyda'n gilydd tuag at blaned ddiogel ac iach.



- Mae Amnest Rhyngwladol yn rhybuddio y gallai bron i 8,000 o bobl gael eu dadleoli o 35 o bentrefi gan fygwth eu cartrefi a'u bywoliaeth.
- Mae erthyglau newyddion lleol niferus wedi tynnu sylw at gwynion preswylwyr, gyda rhai o'r pryderon yn cynnwys cael iawndal am eu tir, sut fyddai unrhyw anifeiliaid sy'n crwydro i'r parth adeiladu yn cael eu trin a'r cyflogau isel fyddai'n cael eu rhoi i weithwyr lleol.

.

- Dywedodd yr Arlywydd Ramaphosa bod *'prosiect dŵr Ucheldir Lesotho yn fwy na dim ond prosiect dŵr. Mae'n ffagl gobaith, arwydd o gynnydd, symbol o gydweithrediad rhyngwladol rhwng Teyrnas Lesotho a Gweriniaeth De Affrica.'*
- Gwella cyflenwad dŵr i Dde Affrica a chynhyrchu pŵer dŵr i Lesotho.
- Bydd Lesotho'n derbyn breindaliadau a bydd y prosiect yn creu tua 5,000 o swyddi dros 5 mlynedd.

# Gweithgareddau

## Gweithgareddau a awgrymir

### Ysgol gynradd...

- Cymharu a chyferbynnu adeiladu argaeau yng Nghymru a Lesotho.
- Darllenwch y datganiadau a'u rhoi yn nhrefn pwysigrwydd. Taflen Gweithgaredd Argae Polihali (atodedig). Mae'n bosib y gall y daflen chwarae rôl yma gan Global Learning Programme Wales helpu.

Adnoddau dŵr cynradd | Dŵr Cymru Welsh Water

- **Gwneud addewid hinsawdd (cyfeiriwch at ganllawiau Dŵr Cymru ar ddefnyddio dŵr i'ch helpu chi)**
- Creu eich poster actifiaeth eich hun

### Ysgol uwchradd...

- Trafodwch fanteision ac anfanteision codi argae, ystyriwch y traweffeithiau cymdeithasol a gwleidyddol. Mae'n bosib y gall y daflen chwarae rôl yma gan Global Learning Programme Wales helpu.
- Uwchradd: Darllenwch y datganiadau a'u rhoi yn nhrefn pwysigrwydd. Taflen Weithgaredd Argae Polihali (atodedig)
  - Pam y drefn hon?
  - trafodwch beth sy'n debyg / wahanol rhwng Cymru a Lesotho

Adnoddau dŵr cynradd | Dŵr Cymru Welsh Water

# Dolenni Pellach

Drowned – The Flooding of a Village - Introducing... Drowned - The Flooding of a Village - BBC Sounds

Welsh Graffiti - the story of Tryweryn dam

Rhaglen Ddogfen *Cofiwch Dryweryn - Remember Tryweryn* (2024)

**Almost 2,500 people affected by construction of Lesotho Water Project-** Bing Videos

**Lesotho: The deal with water -** Bing Videos

Map gweledol o Ragolygon lefelau dŵr o ganlyniad i greu Argae Polihali gan ddefnyddio menter#MapLesotho

## Futures Thinking

**Defnyddio gweithgareddau Meddwl i'r Dyfodol er mwyn archwilio'r cwestiynau canlynol:**

Sut beth fydd defnyddio dŵr yn y dyfodol? Ymhen 40 mlynedd? Ymhen 200 mlynedd?

Beth ydym ni'n ei wybod ynghylch mynediad at ddŵr yn y dyfodol agos? A fydd yna lifogydd? A fydd sychder? A fydd yn aros yr un fath?

Pa broblemau fydd plant fel chi yn ei gael yn y dyfodol os fydd yr hinsawdd a'n tywydd yn newid?

Beth fyddwn ni angen ei wneud yn y dyfodol er mwyn wynebu'r problemau?